*This document is available in English* **Eitem Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Gorffennaf 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Amherthnasol** |
| Swyddog Cyswllt | **Gwasanaethau Aelodau** (members.services@northwalesfire.gov.wales) |
| Pwnc | **Adroddiad y Cadeirydd** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad chwarterol hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) iddynt yn rhinwedd eu swyddi rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2025.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r Cadeirydd a/neu'r Dirprwy Gadeirydd wedi mynd i nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau, yn fewnol ac yn allanol, ar ran yr Awdurdod.

**ARGYMHELLIAD**

3 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) **Nodi'r wybodaeth a roddir.**

**ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried o'r blaen.

**GWYBODAETH**

5 Yn ogystal â chyfarfodydd sy'n ymwneud â'r Awdurdod, mae'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd wedi cyfarfod â'r Prif Swyddog Tân (PST) yn rheolaidd.

6 Ar 3 Ebrill 2025 aeth y Cadeirydd a'r PST i gyfarfod ar-lein o'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) i drafod trafodaethau cyflog.

7 Ar 7 Ebrill 2025, yn dilyn gwahoddiad, ymwelodd y Cadeirydd â Gorsaf Dân Bangor i gwrdd â staff.

8 Ar 11 Ebrill 2025 aeth y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd i Seremoni Gyflawniad y Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn newydd yng Ngorsaf Dân y Rhyl.

9 Ar 14 Ebrill 2025 ymwelodd y Cadeirydd â Gorsaf Dân Benllech a chyfarfod â'r Wylfa.

10 Ar 17 Ebrill 2025 aeth y Cadeirydd, ynghyd â'r Cynghorydd Sharon Doleman ac aelodau o'r Tîm Prif Swyddogion, i weithdy Gwella Diwylliant.

11 Ar 23 Ebrill 2025 ymwelodd y Cadeirydd â Gorsaf Dân Rhosneigr a chyfarfod â'r Wylfa.

12 Ar 28 Ebrill 2025, aeth y Cadeirydd i gyfarfod ar-lein gydag aelodau o Dîm Archwilio Cymru i drafod eu hadolygiad o "Asesiadau Sicrwydd a Risg" o fewn Awdurdodau Tân ac Achub.

13 Ar 5 Mai 2025 ymwelodd y Cadeirydd â Gorsaf Dân Amlwch a chyfarfod â'r Wylfa.

14 Ar 9 Mai 2025 ymwelodd y Dirprwy Gadeirydd â Gorsaf Dân y Waun i fynd i Seremoni Wobrwyo Ffenics.

15 Ar 12 Mai 2025 aeth y Cadeirydd a'r PST i gyfarfod y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd.

16 Ar 15 Mai 2025 aeth y Cadeirydd a'r PST, ynghyd â Chadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân eraill Cymru, i gyfarfod ar-lein o Banel Tân ac Achub CLlLC.

17 Ar 26 Mai 2025 ymwelodd y Cadeirydd â Gorsaf Dân Porthaethwy a chyfarfod â'r Wylfa.

18 Ar 27 Mai 2025 aeth y Cadeirydd i gyfarfod ar-lein o'r Bwrdd Gwella Diwylliant.

19 Ar 1 Mehefin 2025 ymwelodd y Cadeirydd â Gorsaf Dân Porthaethwy i gefnogi'r digwyddiad Golchi Ceir Elusennol.

20 Ar 6 Mehefin 2025 ymwelodd y Dirprwy Gadeirydd â Gorsaf Dân Treffynnon i fynd i Seremoni Wobrwyo Ffenics.

21 Ar 10 Mehefin 2025 cyfarfu'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd ag aelodau o'r Tîm Prif Swyddogion i archwilio'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Yn ddiweddarach yr un diwrnod dirprwyodd y Cadeirydd ar ran y Cynghorydd Gareth Sandilands (nad oedd ar gael) gan fynd i gyfarfod o Fwrdd Prosiect y Ganolfan Hyfforddi.

22 Ar 11 Mehefin 2025 aeth y Cadeirydd a'r PST i gyfarfod ar-lein o'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol.

23 Ar 18 a 19 Mehefin 2025 aeth y Cadeirydd i gynhadledd flynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn Llandudno gyda'r PST.

24 Ar 27 Mehefin 2025 eisteddodd y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a phedwar Aelod arall o'r Awdurdod ar y panel cyfweld ar gyfer penodi i swyddi PSTC.

25 Ar 30 Mehefin 2025 aeth y Cadeirydd a'r PST, ynghyd â Chadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân eraill Cymru, i gyfarfod ar-lein gydag Ysgrifennydd y Cabinet a'i swyddogion.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Amherthnasol. |
| Cyllideb | Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau y mae aelodau'n mynd iddynt yn cael eu had-dalu o'r gyllideb teithio a chynhaliaeth. |
| Cyfreithiol | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Staffio | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/<br>Y Gymraeg | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Risgiau | Does dim risgiau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |